Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Blueberry Bears Nursery & Pre School**

**Blueberry Bears Nursery**
**1 Burt Street**
**Caerdydd**
**CF10 5FZ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/09/2023

## Blueberry Bears Nursery & Pre School

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | BBN Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 42 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 14 Mai 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Caiff y plant sawl cyfle i wneud dewisiadau. Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Maent yn teimlo'n ddiogel yng ngofal y staff sy'n ymatebol, ac yn eu hadnabod yn dda. Mae'r plant yn elwa ar gyfleoedd da i chwarae a dysgu, a datblygu annibyniaeth.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn gymwys ac yn llawn cymhelliant. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn amyneddgar, yn garedig ac yn ofalgar tuag at ei gilydd a'r plant. Mae'r staff yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol drwy amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd. Caiff y rhain eu harwain gan ddiddordebau ac anghenion datblygiadol y plant.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da. Mae amrywiaeth o deganau, cyfarpar ac adnoddau dan do ac yn yr awyr agored yn hyrwyddo chwarae'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi dylunio cynllun yr ystafelloedd mewn modd ystyriol er mwyn greu lle croesawgar i'r plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth glir ac yn ei rhannu â'r staff. Maent yn llawn cymhelliant ac yn adolygu'r lleoliad yn rheolaidd. Maent yn awyddus i wella ansawdd y gofal a gynigir yn barhaus. Mae tîm staff cryf sy'n cael ei gefnogi'n dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sefydlu cydberthnasau da â'r rhieni ac asiantaethau allanol.

**Llesiant** **Da**

Caiff y plant lawer o gyfleoedd i wneud penderfyniadau am y ffordd maent yn treulio eu hamser yn y feithrinfa. Gallant ddewis beth i chwarae ag ef a gallant wneud dewisiadau drwy gydol eu diwrnodau. Er enghraifft, gwelsom blant bach yn dewis y straeon yr oeddent am eu darllen â nhw. Mae plant o bob oed a chyfnod datblygu yn mynegi eu hunain yn hyderus. Maent yn gwybod bod staff yn gwrando ar eu hanghenion a'u dymuniadau ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae. Mae lleisiau'r plant yn bwysig yn y lleoliad. Caiff eu diddordebau eu hystyried wrth gynllunio gweithgareddau'r dyfodol.

Mae'r plant yn hapus iawn, wedi setlo, yn hyderus ac yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda wrth ffarwelio â'u rhieni/gofalwyr ac yn meithrin cydberthnasau emosiynol cadarnhaol â'r staff sy'n eu hadnabod yn dda. Gwelsom y plant bach yn barod i fynd at y staff i gael sicrwydd a chwtsh os bydd angen. Gwelsom y plant ar draws y lleoliad yn gofyn am help ac am gymorth yn hyderus. Maent yn gwahodd y staff i chwarae yn frwdfrydig ac yn gwenu'n hapus wrth sgwrsio â nhw. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r arferion sy'n ychwanegu at eu hymdeimlad o ddiogelwch ac o berthyn. Er enghraifft, gwelsom y plant yn edrych ymlaen at baratoi i frwsio eu dannedd ar ôl brecwast.

Mae'r plant yn chwarae'n dda gyda'i gilydd yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau, a gwelsom eu bod yn sgwrsio'n hapus â'i gilydd yn ystod amser cinio. Mae'r plant hŷn yn hunanddisgybledig ac yn deall y rheolau ynglŷn ag ymddygiad cymdeithasol derbyniol. Maent yn dangos parch at y bobl ac yn gofalu am y cyfarpar a'r adnoddau o amgylch y feithrinfa.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant, ac yn ymroi i chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol. Er enghraifft, gwelsom y plant yn gwrando'n astud ar straeon, y plant bach yn chwerthin wrth ddringo ar risiau a sleid chwarae meddal, a'r plant yn ymuno â chaneuon actol gan wenu'n braf. Mae cydbwysedd da o weithgareddau dan arweiniad y plentyn a gweithgareddau dan arweiniad yr oedolyn. Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i gychwyn eu chwarae eu hunain.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Gwelsom blant bach yn bwydo eu hunain yn annibynnol ac yn cael gafael ar ddiodydd eu hunain drwy gydol y dydd. Mae'r plant hŷn yn dysgu i weini eu hunain â gefelau, arllwys eu diodydd a dysgu i glirio ar ôl eu prydau. Maent yn defnyddio'r cyfleusterau toiled yn annibynnol ac yn cael eu hannog gan y staff i olchi eu dwylo pan fydd angen. Caiff y plant eu hannog i wisgo eu cotiau a'u hesgidiau yn annibynnol.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf gan gynnwys cymorth cyntaf pediatrig, hylendid bwyd a diogelu. Caiff trefniadau diogelu eu blaenoriaethu ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau y caiff gwybodaeth y staff ei phrofi a'i diweddaru. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn y plant yn dda. Caiff mesurau iechyd a hylendid eu hybu yn y gwasanaeth. Mae'r cogydd yn gwneud prydau bwyd cartref iach ac mae'r staff yn bwyta'r rhain gyda'r plant, gan greu awyrgylch cymdeithasol cadarnhaol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rhoi systemau ar waith i reoli alergeddau ac anoddefiadau yn ddiogel. Mae'r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn fanwl ac yn rhannu'r wybodaeth hon â'r rhieni. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu'r wybodaeth yn rheolaidd ac yn drylwyr iawn er mwyn monitro unrhyw batrymau neu dueddiadau. Mae'r staff yn glir ynglŷn â'r polisïau a'r gweithdrefnau yn y lleoliad ac yn eu dilyn yn agos. Er enghraifft, roedd y staff yn gallu dweud wrthym am y camau y dylent eu cymryd os bydd gan blentyn dymheredd ac roeddent yn glir ynghylch y gweithdrefnau i reoli amseroedd cysgu yn ddiogel.

Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio ac ymddygiad yn y lleoliad yn dda. Maent yn dangos cynhesrwydd, amynedd a charedigrwydd tuag at y plant.  Clywsom y staff yn annog y plant yn rheolaidd ag ymadroddion cadarnhaol fel '*Good job'*. Gwnaeth y staff atgoffa'r plant hefyd i rannu, cymryd eu tro ac i fod yn ofalus wrth chwarae, *'be gentle with our baby friends'*. Mae'r staff yn fagwrus, yn sensitif, ac yn ymwybodol o anghenion pob plentyn sy'n cael gofal ganddynt. Maent yn gweithio'n galed i sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar y plant ar draws y lleoliad. Mae'r staff yn modelu arferion cyfathrebu cadarnhaol i'r plant ac yn hyrwyddo awyrgylch cadarnhaol, heddychlon a llawen gan chwerthin a gwenu. Mae hyn yn gosod naws y lleoliad.

Mae'r staff yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol. Maent yn goruchwylio'r plant yn rheolaidd i olrhain eu cynnydd a'u datblygiad. Mae'r staff yn cynllunio sut y gallant gefnogi eu camau nesaf. Mae'r wybodaeth hon hefyd yn eu helpu i nodi'n gynnar pan fydd gan fabanod neu blant anghenion datblygiadol posibl. Mae'r staff yn y feithrinfa yn gweithio'n dda gyda'r rhieni ac asiantaethau eraill i gefnogi'r plant sydd ag anghenion ychwanegol. Yn naturiol, mae'r staff wedi ehangu dysgu'r plant yn eu chwarae a thrwy gydol y dydd drwy sgwrsio â nhw am yr hyn y maent yn ei wneud. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn addasu'r gofal y maent yn ei roi yn naturiol i'r plant. Mae cyfleoedd dyddiol i'r plant chwarae a dysgu yn yr awyr agored. Caiff y babanod gyfleoedd hefyd i gael awyr iach; fodd bynnag nid yw'r rhain mor rheolaidd â'r rhai ar gyfer y plant hŷn.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r safle yn gynnes ac mewn cyflwr da. Mae'r fynedfa yn ddiogel ac mae'r drysau wedi'u cloi yn sicrhau mai dim ond mynediad awdurdodedig sydd wedi'i ganiatáu. Mae gwiriadau a thystysgrifau diogelwch arferol ar waith ar gyfer yr adeilad, y cyfarpar diogelwch tân a'r dyfeisiau. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru â'r adran diogelwch bwyd yn yr awdurdod lleol. Ar y cyfan, mae'r lleoliad yn ddiogel. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd nifer fach o risgiau yn bresennol nad oeddent wedi cael eu nodi ar yr asesiadau risg neu wedi'u cyfeirio atynt gan y staff. Unwaith y codwyd y rhain, gwnaeth y staff sy'n rhedeg y lleoliad gymryd camau gweithredu ar unwaith i'w datrys. Mae gweithdrefnau tân ar waith ac mae'r staff yn cynnal ymarferion tân. Fodd bynnag, mae'r cofnodion yn dangos nad yw'r rhain yn cael eu cynnal yn ddigon rheolaidd i brofi'r gweithdrefnau'n drylwyr ac i sicrhau bod y staff a'r plant yn gyfarwydd â gweithdrefnau gwagio'r adeilad. Gwnaeth y bobl sy'n rhedeg y lleoliad roi cynlluniau ar waith i wella hyn yn ystod y broses arolygu.

Mae'r amgylchedd yn olau, yn groesawgar, ac yn addas iawn i'r plant. Caiff ei addurno'n ddymunol, sy'n apelio i'r plant ac mae ganddo ymdeimlad cyfforddus a chartrefol. Mae digon o le a golau yn y prif ystafelloedd sy'n rhoi gofod a rhyddid i'r plant symud o gwmpas wrth iddynt chwarae. Mae'r ystafelloedd wedi'u trefnu mewn modd diddorol er mwyn ysgogi chwilfrydedd, awydd i archwilio a datblygiad y plant. Ceir amrywiaeth da o adnoddau a llyfrau pwrpasol sydd ar gael yn rhwydd i'r plant, gan annog eu hannibyniaeth. Mae'r ardal awyr agored wedi cael ei datblygu i ddarparu lle dymunol lle gall y plant wneud dewisiadau wrth iddynt chwarae a dysgu. Yn y lleoliad, mae'r byrddau sy'n arddangos lluniau o deuluoedd y plant ac enghreifftiau o'u gweithiau celf yn cynyddu ymdeimlad o berthyn i'r plant.

Mae'r teganau, adnoddau, dodrefn a chyfarpar yn y feithrinfa mewn cyflwr da, cânt eu cynnal yn dda a'u gwirio'n rheolaidd i sicrhau diogelwch. Gwelsom y staff yn cael gwared ar y tegan a oedd wedi torri ar unwaith. Mae'r lleoliad yn cynnwys dodrefn ac adnoddau addas i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, byrddau a chadeiriau maint plant a lle storio teganau lefel isel, sy'n addas i oedran y plant ym mhob ystafell yn y lleoliad. Mae nifer addas o doiledau plant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gymwys, yn brofiadol, ac yn angerddol am y gofal a gynigir. Mae creu cartref cynnes, gofalgar a chartrefol i'r plant yn flaenoriaeth iddynt. Caiff y cynhesrwydd ac egni'r weledigaeth arweinyddiaeth eu rhannu â'r staff, sy'n rhoi ymdeimlad cadarnhaol cyson ar draws y lleoliad. Mae datganiad o ddiben clir a chyfredol sy'n galluogi'r rhieni a'r gofalwyr i benderfynu a yw'r lleoliad yn addas i'w plentyn. Mae  polisïau a gweithdrefnau clir ar waith sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal hunanwerthusiad a chynllunio ar gyfer gwella. Maent yn cael adborth gan y rhieni, y plant a'r staff ac yn myfyrio ar eu hymarfer i lunio adroddiad Ansawdd y Gofal yn flynyddol. Mae hon yn broses ystyriol sy'n ceisio llywio gwelliant yn y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd wedi dangos eu hymrwymiad at wella drwy drefnu eu harchwiliadau mewnol ac allanol eu hunain er mwyn gwerthuso'r safonau yn y lleoliad yn annibynnol. Maent wedi ymgysylltu'n llawn â'r broses arolygu fel dull o wella ansawdd.

Mae ffeiliau'r staff yn gyfredol ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgymryd â'r holl wiriadau perthnasol i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hapus a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda. Ceir tystiolaeth o hyn yn y lefelau isel o drosiant staff. Mae systemau ar waith i sicrhau bod y staff yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu'n rheolaidd. Mae'r cydberthnasau gwaith rhwng y person â chyfrifoldeb a'r unigolyn cyfrifol yn gryf, yn gefnogol ac yn gyson ac maent yn cyfathrebu'n rheolaidd ac yn effeithiol. Fodd bynnag, ni chaiff trefniadau goruchwylio ac arfarnu ar gyfer y person â chyfrifoldeb eu cofnodi'n ffurfiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni a'r gofalwyr, a gwnaethant ganmol y lleoliad a'r gofal y mae eu plant yn ei gael. Gwnaethant ddweud wrthym fod y lleoliad yn cyfathrebu â nhw ac yn eu cefnogi'n dda a pha mor fodlon yw eu plant i fynd yno. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sefydlu cydberthnasau cadarnhaol iawn ag asiantaethau allanol. Maent yn awyddus i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol eraill er mwyn darparu gofal o safon uchel i'r plant. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn rhan o'r cynllun cyn ysgol Iach a Chynaliadwy ac wedi ennill gwobr Byrbryd Safon Aur.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 27 | Ni wnaeth y person Cofrestredig sicrhau bod nifer digonol o unigolion cymwys, medrus a phrofiadol yn gofalu am y plant. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Cynyddu'r cyfleoedd i'r babanod chwarae a dysgu yn yr awyr agored. |
| Safon 24 - Diogelwch | Adolygu gweithdrefnau tân a chynyddu cysondeb ymarferion tân i sicrhau bod y staff a'r plant yn gyfarwydd â'r hyn i'w wneud mewn argyfwng. |
| Safon 24 - Diogelwch | Adolygu'r broses asesu risg i sicrhau y caiff yr holl risgiau eu nodi ac y caiff pob aelod o'r staff eu cynnwys. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Cofnodi sesiynau goruchwylio ac arfarnu'r person â chyfrifoldeb yn ffurfiol. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/10/2023